

Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl Dirybudd

Bwrdd Iechyd Prifysgol

**Aneurin Bevan: Uned Asesu a
Thriniaeth, Ysbyty Llanfrechfa
Grange**

19 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Cynnwys 1

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau.....	7
	Safonau Craidd.....	7
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	12
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am fonitro Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabled dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau Monitro Deddf Iechyd Meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau a'u hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion

- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflenwi arolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys:

- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl dirybudd o Uned Asesu a Thriniaeth Llanfrechfa Grange, Cwmbran ar 19 Mai 2015.

Mae Uned Asesu a Thriniaeth Llanfrechfa Grange yn Ysbyty Anableddau Dysgu, ac iddo ward â saith gwely sy'n darparu gofal ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis deuol o anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, a chleifion a chanddynt anabledd dysgu sy'n achosi ymddygiadau sylweddol sy'n herio.

Yn ystod y dydd, gwnaethom ymweld â'r uned, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC

4. Crynodeb

Mae Uned Asesu a Thriniaeth Llanfrechfa Grange yn ysbyty anabledau dysgu a adeiladwyd i'r pwrpas. Roedd amgylchedd digynnwrf a hamddenol ynddo drwy gydol ein hymweliad.

Ar y cyfan roedd yr uned wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd wedi'i chyfarparu â dodrefn priodol ar gyfer y grŵp o gleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd y cleifion fod y staff yn barod eu cymwynas, ac wedi inni weld dogfennau'r cleifion, roedd yn glir bod y cleifion, eu teuluoedd a'u gofalmwr yn cyfrannu at ofal cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o ddogfennau statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Fodd bynnag, roedd nifer o agweddau ar gadw cofnodion y gellid eu gwella, yn unol â Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y mynediad wedi'i ddiogelu gan glo â chod rhifau i rwystro pobl rhag cael mynediad ato heb awdurdod. Roedd y penderfyniad i ddiogelu'r fynedfa yn seiliedig ar benderfyniad clinigol, er mwyn atal nifer o'r cleifion dan gadwad rhag gadael y ward heb awdurdod. Roedd yn rhaid cloi drws y ward o'r tu mewn, ac roedd hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnod ar gyfer cloi'r drws. Mae'r bwrdd iechyd yn monitro pa mor aml mae hyn yn digwydd. Mae'r ward yn arddangos gwybodaeth sy'n esbonio i'r cleifion sy'n cael gadael y ward sut y gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno. Pan nad yw'r drws ar glo mae cleifion yn cael gadael y ward.

Ar ddiwrnod ein harolygiad dirybudd, roedd yr uned i'w gweld yn lân, yn daclus ar y cyfan, a heb aroglau amhleserus neu glinigol ynddi. Ar y cyfan roedd y mannau cymunedol wedi'u dodrefnu'n dda, ac roedd y gosodion a ffitiadau'n briodol ar gyfer y cleifion.

Roedd ystafell dawel er mwyn i gleifion gwrdd â theulu neu ymwelwyr eraill. Roedd ystafell arall lle'r oedd cleifion yn gallu gwneud gweithgareddau.

Roedd gan y cleifion fynediad uniongyrchol o'r lolfa gymunedol, at ardd gaeedig fawr a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Dywedwyd wrthym fod un o'r cleifion presennol yn mwynhau gofalu am yr ardd, a phan fydd y tywydd yn braf, mae staff y ward yn cynnal gweithgareddau yn yr ardd.

Roedd man gofal ychwanegol¹ yn yr Uned Asesu a Thriniaeth, lle rhoddir gofal i gleifion sydd angen gofal dwysach. Roedd ystafell wely, lolfa, tŷ bach, cawod a gardd ddiogel yn y man gofal ychwanegol. Roedd y man gofal ychwanegol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd yn addas ar gyfer darparu gofal dwysach.

Roedd ystafell ysmygu a oedd yn addas i'r diben ar gael yn Ysbyty Llanfrechfa Grange.

¹Ardal er mwyn galluogi cleifion i dderbyn gofal y tu allan i'r brif ward os ydynt yn dangos arwyddion o ofid a allai effeithio ar eu diogelwch a'u hurddas eu hunain neu ddiogelwch ac urddas pobl eraill.

Diogelwch

Dywedodd y cleifion y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Ysbyty Llanfrechfa Grange. Roedd polisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar gael ar y ward i'r staff ac yn system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Ym mhob un o'r mannau cleifion, roedd gosodion a ffitiadau'r ysbyty yn rhai heb rwymynnau.

Dywedodd staff fod lefelau arsylwi'n cael eu cynyddu pe bai angen, er mwyn adlewyrchu'r risg mae ymddygiad unrhyw gleifion yn ei pheri.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff sy'n gweithio yn yr ysbyty wedi cwblhau hyfforddiant rheoli ymddygiad yn gadarnhaol. Gwelsom staff yn dad-ddwysáu ac yn ailgyfeirio cleifion mewn ffordd urddasol a gofalgar.

Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd staff arolygu'n cario larymau personol, ac roedd y rhain ar gael ar gyfer pawb sy'n ymweld â'r ward.

Y tîm amlddisgyblaethol

Roedd y nifer graidd o staff ar gyfer yr ysbyty'n cynnwys un nyrs gofrestredig a phedwar cynorthwydd nyrsio yn ystod y dydd, ac un nyrs gofrestredig a dau gynorthwydd nyrsio yn ystod y nos.

Roedd pob nyrs gofrestredig a oedd yn gweithio yn Ysbyty Llanfrechfa Grange wedi cwblhau hyfforddiant anableddau dysgu. Dywedwyd wrthym fod y lefelau staffio'n cael eu hadolygu bob dydd er mwyn adlewyrchu'r lefel o ofal sydd ei hangen ar y grŵp cleifion.

Yr Uned Asesu a Thriniaeth yw'r unig wasanaeth ar gyfer cleifion mewnol ar safle Ysbyty Llanfrechfa Grange. Roedd protocolau lleol ar waith ar gyfer rhoi cymorth ar unwaith yn yr Uned. Dywedwyd wrthym fod staff clinigol y bwrdd iechyd sy'n gweithio mewn mannau sydd heb gleifion ar safle Ysbyty Llanfrechfa Grange, yn rhoi cymorth yn ystod oriau gwaith swyddfa arferol rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Y tu allan i'r oriau hyn, bydd staff o gartrefi Mitchell Close, lleoliadau anableddau dysgu'r bwrdd iechyd ychydig oddi ar safle Ysbyty Llanfrechfa Grange, yn dod i roi cymorth.

Yn ystod yr adborth ffurfiol ar ddiwedd yr arolygiad, gwnaethom drafod a oedd y trefniadau y tu allan i oriau'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Oherwydd bod yr uned yn ward arunigol, dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer gyda'r nos, y nos a'r penwythnos er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Gwnaethom hefyd drafod y cymysgedd sgiliau yn ystod sifftiau'r dydd. Oherwydd nifer y cleifion a lefel aciwtedd cleifion, roeddem yn teimlo y dylai'r bwrdd iechyd adolygu nifer y nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn ystod y dydd i sicrhau bod digon o gapasiti er mwyn iddynt ymgymryd â'u rôl.

Pan fydd angen, mae Llanfrechfa Grange yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd, neu os nad yw hynny'n bosibl, mae'n defnyddio staff asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod nifer o swyddi gwag roedd y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar eu cyfer.

Mae gan Llanfrechfa Grange ymgynghorydd neilltuedig a therapydd galwedigaethol llawn amser. Yn ogystal mae'n derbyn mewnbwn gan wasanaeth seicoleg, gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith a gwasanaeth deietegol. Roedd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos.

Gofynion

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer gyda'r nos, y nos a'r penwythnos.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu nifer y nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn ystod y dydd.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan gleifion ystafelloedd gwely unigol, gan gynnwys dwy ystafell wely en suite. Roedd toiledau ac ystafelloedd ymolchi ym mhob un o goridoriau'r ystafelloedd gwely. Gwnaethom nodi nad oedd un o'r tai bach i fenywod yn gweithio. Tynnwyd sylw at hyn eisoes, ond nid oedd wedi'i atgyweirio ar adeg ein harolygiad.

Roedd cleifion yn cael personoli eu hystafelloedd gwely eu hunain, ac roedd dodrefn addas â digon gyfleusterau storio ynddynt. Roedd cleifion yn cael cloi drysau eu hystafelloedd gwely, ond roedd y staff yn gallu eu hagor os oedd angen. Roedd mesurau preifatrwydd priodol wedi'u sefydlu ar gyfer ffenestri ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd ystafell ymolchi ar gael ac ynddi gymhorthion codi a cherdded priodol. Fodd bynnag, nodwyd bod sling untro ar gyfer yr offer codi yn yr ystafell ymolchi nad oedd wedi'i storio na'i waredu mewn ffordd briodol.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgarg a pharchus. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn barod eu cymwynas ac yn garedig.

Roedd yn bleser gennym weld bod cyfleusterau golchi dillad ar y safle, ac roedd y cleifion yn gallu golchi eu dillad gyda chymorth y staff. Fodd bynnag, os nad oedd cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain, byddai staff yn gwneud hyn drostynt. Mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro hyn er mwyn sicrhau bod yr amser mae'r staff nyrsio'n ei dreulio'n golchi dillad cleifion ddim yn

tynnu oddi wrth yr amser maent yn ei dreulio'n gofalu am gleifion. Yn ystod ein harolygiad, gwelwyd nad oedd drws yr ystafell golchi dillad wedi'i gloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac nad oedd y staff yn gallu cloi'r drws.

Roedd ffôn ar gael ar y ward i'r cleifion. Roedd y cleifion a oedd yn berchen ar ffôn symudol yn cael ei ddefnyddio ar y ward ond nid yn y manau cymunedol.

Gofynion

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y toiled i fenywod yn cael ei atgyweirio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod slingiau untro ar gyfer offer codi yn cael eu storio a'u gwaredu mewn ffordd briodol ar ôl iddynt gael eu defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cloi drws yr ystafell golchi dillad pan nad yw'r ystafell yn cael ei defnyddio.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Mae gan y cleifion gynlluniau gweithgareddau a therapi unigol, ac roeddent yn cael dewis pa weithgareddau a therapiau yr oeddent am eu gwneud bob dydd. Yn ogystal â hyn, roedd ganddynt set o weithgareddau craidd a oedd yn gysylltiedig â'u hanghenion penodol a'u galluedd.

Dyweddodd staff fod cynllun yr uned yn caniatáu i gleifion ymgymryd â gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp heb effeithio ar gleifion eraill.

Mae'r Uned Asesu a Thriniaeth ar dir eang Ysbyty Llanfrechfa Grange, sy'n galluogi cleifion i fwyhau'r lle oddi amgylch. Mae gan yr ysbyty gerbyd penodol hefyd, er mwyn i staff allu mynd â'r cleifion i'r siopau lleol ac ar deithiau cymunedol sy'n bellach i ffwrdd. Pan oedd yn briodol, roedd y cleifion hefyd yn gallu gadael yr ysbyty gyda'u teulu a/neu eu gofawyr.

Gofal iechyd cyffredinol

Roedd meddygon y bwrdd iechyd sy'n dod i Ysbyty Llanfrechfa Grange yn gofalu am anghenion iechyd corfforol y cleifion. Yn gyffredinol, mae cleifion yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda'u gwasanaethau iechyd corfforol eu hunain, megis meddygon teulu a deintyddion. Fodd bynnag, roedd gan gleifion hefyd fynediad at ddeintydd cymunedol pe bai angen, a gallai staff atgyfeirio cleifion at wasanaethau trin traed. Roedd cleifion yn defnyddio siopau trin gwallt a siopau barbwyr yn y gymuned.

Bwyd a maeth

Roedd cyfleusterau arlwyo priodol yn yr ysbyty, ac roedd gegin yr ysbyty yn darparu'r prydau bwyd o'r cyflenwad o fwyd oer i'w goginio. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty; Yn ogystal, roedd staff yn gallu bod yn hyblyg ynglŷn â cheisiadau cleifion. Mae gan yr ysbyty bolisi amseroedd prydau bwyd neilltuedig, er mwyn caniatáu i gleifion fwyta eu prydau heb ymyrraeth, a galluogi aelodau o staff i ganolbwyntio ar roi cymorth i'r cleifion hynny nad ydynt yn gallu bwyta'n annibynnol.

Roedd amrywiaeth o fyrbrydau ar gael i'r cleifion y tu allan i'r amseroedd prydau bwyd, ac roedd diodydd ar gael yn rhwydd.

Roedd yr ysbyty'n derbyn mewnbwn gan wasanaeth therapi lleferydd ac iaith y bwrdd ieched, ac roedd staff yn gallu atgyfeirio cleifion at wasanaethau deietegol y bwrdd ieched.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Roedd chwe chlaf yn derbyn gofal yn Ysbyty Llanfrechfa Grange – pob un ohonynt dros 18 mlwydd oed. Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o gleifion wedi'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwnaethom adolygu sampl o ddogfennau statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Fodd bynnag, roedd nifer o agweddau ar gadw cofnodion y gellid eu gwella, yn unol â Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cadw Cleifion

Wrth inni adolygu'r dogfennau statudol ar gyfer pob un o'r cleifion wedi'u cadw dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer Asesiad*², ac Adran 3, *Derbyn ar gyfer Triniaeth*³, gwelsom fod o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo dan Adran 12⁴, ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cwrdd â'r claf o'r blaen⁵. Rhoddwyd rhesymau clir ynglŷn â pham mai eu cadw dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal, a pham nad oedd derbyniadau anffurfiol yn briodol.

Ar gyfer cadw cleifion dan Adran 3, roedd y dogfennau statudol yn nodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn Ysbyty Llanfrechfa Grange.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw dan Adran 2 ac Adran 3, roedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol a Chymeradwy⁶ ar gyfer pob achos wedi nodi perthnasau agosaf y claf⁷. Roedd yn gadarnhaol nodi yn un o'r achosion bod cofnod clir gan y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol a Chymeradwy yn nodi'r nifer o gynigion ar gysylltu â'r perthynas agosaf. Fodd bynnag, nid oedd pob copi o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wedi'i gadw gyda dogfennau cadw claf pob unigolyn, sy'n arfer da.

² Adran 2 – derbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

³ Adran 3 – derbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

⁴ Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel meddyg sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae'r byrddau iechyd lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

⁵ Pan fo hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymhell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf yn flaenorol (Adran 12(2) o'r Ddeddf).

⁶ Gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r Ddeddf, a gymeradwywyd gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau dan y Ddeddf.

⁷ Unigolyn a ddiffinnir gan adran 26 y Ddeddf, sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf o ran claf y mae'n berthynas agosaf iddo.

Cam gofynnol

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gael yn nodiadau unigol y cleifion.

Adran 5 – Cais mewn perthynas â chlaf sydd eisoes yn yr ysbyty⁸

Pan oedd cleifion wedi'u cadw dan Adran 5(4) ⁹ o'r Ddeddf i ddechrau, roedd yn amlwg bod pob claf yn glaf mewnol ar yr adeg honno. Roedd yn amlwg bod Adran 5(2) ¹⁰ yn cael ei gweithredu o fewn yr amser gofynnol o chwe awr. Er bod y claf wedi cael ei gadw dan Adran 5(2), roedd ail argymhelliad meddygol wedi cael ei sicrhau o fewn yr amser gofynnol o 72 awr er mwyn cadw'r claf dan Adran 2.

Wrth inni adolygu nodiadau unigol y claf, roedd yn amlwg pam roedd angen defnyddio Adran 5(4) ac Adran 5(2) ar adeg eu gweithredu, ac roedd y newid i statws cyfreithiol y claf wedi'i gofnodi.

Cadw parhaus

Nid oedd yr un o'r cleifion wedi bod yn destun adnewyddu'r cyfnod cadw o dan Adran 20, *Parhad Awdurdod*.

Rhan 132 – darparu gwybodaeth

Wrth adolygu nodiadau'r cleifion, roedd yn amlwg yn y rhan fwyaf o achosion bod y cleifion wedi cael eu hysbysu o'u hawliau o dan Adran 132 y Ddeddf yn rheolaidd, ac roedd eu dealltwriaeth wedi cael ei chofnodi. Pan oedd angen, roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth mewn fformat sy'n hawdd ei ddarllen.

Fodd bynnag, roedd cofnod ar gael bob amser o'r cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawliau pan eu bod yn cael eu cadw dan y Ddeddf.

Cam gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi yn nodiadau'r cleifion y cynigion ar roi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â chael eu cadw yn ogystal â'u hawliau, fel y nodir yn y Cod Ymarfer, paragraff 22.34.

Apelio yn erbyn cadw claf

⁸ Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy'n caniatáu i gleifion mewnol mewn ysbyty gael eu cadw dros dro er mwyn penderfynu pa un ag y dylid gwneud cais i'w cadw ai peidio.

⁹ Adran 5 yn cael ei gweithredu gan nyrs

¹⁰ Adran 5 yn cael ei gweithredu gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu glinigydd cymeradwy

Nid oeddem yn gallu canfod pa un a oedd y cleifion i gyd wedi cael eu hysbysu o'r broses apelio yn erbyn cael eu cadw, ac felly dim ond os oeddent yn dymuno apelio y byddent yn cael gwybod. Fel y nodwyd uchod, nid oedd cofnod bob amser o'r cleifion yn cael eu hysbysu am yr hawl i apelio yn erbyn cael eu cadw, ac nid oedd unrhyw ddogfennau yn nodi bod apêl at y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl wedi'i gwneud.

Ar gyfer y cleifion eraill, roedd yn amlwg pe bai cleifion yn dymuno apelio at y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl y byddai'r broses yn cael ei dilyn. Roedd y nodiadau'n nodi canlyniad y tribiwnlys ac yn dweud bod y claf wedi cael ei hysbysu.

Cam gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn gwybod am ei hawl i apelio yn erbyn cael ei gadw.

Cydsynio i driniaeth

Roedd cleifion a fu'n destun darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58 y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir. Fodd bynnag, ar gyfer un claf nid oedd copi o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth wedi'i gadw gyda chofnod gweinyddu meddyginiaeth y claf (Siart MAR). Cafodd hyn ei unioni ar ddiwrnod yr arolygiad.

Lle bu'n rhaid i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) awdurdodi tystysgrif cydsynio i driniaeth, cafodd cofnod o'r broses hon ei nodi yn nodiadau'r claf. Roedd cofnodion y claf hefyd yn cynnwys cofnod o drafodaethau'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn â'r ymgynghorwyr statudol.

Pan oedd angen meddyginiaeth pro re nata, roedd hyn a'r rhesymau pam yn cael eu cofnodi yn nodiadau unigol y claf.

Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, gan gynnwys y terfyn amser neu'r dyddiad adolygu y cafodd ei chwblhau.

Gwnaethom nodi yn ffeiliau'r cleifion nad oedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben, wedi'u marcio'n glir i fod yn annilys. Mae'n arfer da i sicrhau bod ffurflenni awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben yn cael eu marcio i fod yn annilys.

Roedd yn amlwg bod teuluoedd a gofalwyr wedi derbyn copïau o ffurflenni awdurdodi absenoldeb pan oedd hyn yn briodol. Cafwyd cofnod yn nodiadau'r

cleifion o ba mor llwyddiannus oedd eu habsenoldeb, yn ogystal ag unrhyw broblemau neu bryderon a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o absenoldeb.

Gellid gwella'r amodau ar nifer o ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 er mwyn cynnwys hyd yr absenoldeb neu/ac amllder absenoldebau. Hefyd dylid cynnwys manylion ynglŷn â nifer y bobl sydd eu hangen i symud y claf, ac a oes rhaid i'r hebryngwr fod yn aelod o staff neu aelod(au) o'r teulu.

Roedd yr ysbyty wedi nodi risgiau posibl tra bod y cleifion ar eu cyfnod absenoldeb, yn ogystal â'r hyn sy'n achosi'r risgiau a'r camau gweithredu i'w cymryd pe bai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth ynglŷn â'r tebygrwydd y byddai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu.

Gofynion

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen absenoldeb Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio i fod yn annilys.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r amodau a nodir ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17, a'u diwygio lle bo hynny'n briodol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.

Cleifion cyfyngedig

Nid oedd unrhyw gleifion wedi'u cadw dan Ran 3 o'r Ddeddf, *Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddeddfryd.*

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Llanfrechfa Grange yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith iddo gael ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Lleoliad: Llanfrechfa Grange

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Safonau Craidd				
9	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau staffio ar gyfer gyda'r nos, y nos a'r penwythnos.	Mae Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Arbenigol, Nyrs Arwain y Gyfarwyddiaeth a Rheolwr yr Uned Asesu a Thriniaeth wedi adolygu'r trefniadau staffio. Mae Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Arbenigol, yr Arweinydd Meddygol, Rheolwr yr Uned Asesu a Thriniaeth a	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd

		Seicolegydd Clinigol yr Uned yn cwrdd bob dydd lau, er mwyn trafod staffio a chynllunio'r staffio ar gyfer y penwythnos. Mae lefelau staffio'n cael eu cynyddu yn ôl anghenion clinigol a diogelwch cleifion.		
9	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu nifer y nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn ystod y dydd.	Mae Nyrs Arwain y Gyfarwyddiaeth a'r Nyrs Arwain Is-adrannol wedi cwrdd er mwyn trafod ac adolygu nifer y nyrsys cofrestredig. Mae'r Nyrs Arwain Is-adrannol yn cefnogi'r cynnydd hwn yn nifer y nyrsys cofrestredig ar yr uned. Mae adolygiad o'r cymysgedd staffio ar yr uned wedi arwain at gynnydd yn nifer y swyddi nyrsio cofrestredig o un swydd gyfwerth ag amser llawn.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd
9	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y toiled i fenywod yn cael ei atgyweirio.	Mae'r tŷ bach i fenywod wedi cael ei atgyweirio.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd
10	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod slingiau untro ar gyfer offer codi yn cael eu storio a'u gwaredu mewn ffordd briodol ar ôl iddynt gael eu defnyddio.	Mae slingiau un tro ar gyfer offer codi bellach yn cael eu storio yn yr ystafell dillad gwely. Ceir gwared ar slingiau un tro ar ôl iddynt gael eu defnyddio.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd

10	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cloi drws yr ystafell golchi dillad pan nad yw'r ystafell yn cael ei defnyddio.	Cafodd clo'r ystafell golchi dillad ei atgyweirio ar 19 Mai 2015. Mae'r ystafell golchi dillad yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl				
11	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gael yn nodiadau unigol y cleifion.	Bydd y nyrsys cofrestredig/meddygon yn gofyn am adroddiadau gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy pan nad yw'r rhain yn cael eu hanfon i'r uned. Bydd nodiadau cleifion, yn benodol gwaith papur ynglŷn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael eu trafod a'u hadolygu yng nghyfarfod datblygu'r Uned Asesu a Thriniaeth, a gynhelir ar 7 Gorffennaf 2015. Yn y cyfarfod uchod, bydd rhestr wirio ar gyfer adolygu nodiadau cleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei datblygu ac fe gytunir arni. Bydd y rhestr wirio (a'r camau gweithredu cysylltiedig) yn cael eu gweithredu'n fisol. Bydd y rhestr wirio hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion archwilio, ac yn cael ei	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Yn parhau Gorffennaf 2015 Diwedd Gorffennaf 2015

		hadolygu yng nghyfarfod datblygu misol yr Uned Asesu a Thriniaeth. Bydd adroddiadau'r gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy sydd yn ffeiliau'r cleifion yn rhan o'r rhestr wirio hon/archwiliad hwn. Mae hyfforddiant ar waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'i gynllunio ar gyfer sesiwn datblygiad proffesiynol parhaus i nyrsys cofrestredig. Bydd Arweinydd Clinigol yr Uned a'r Clinigydd Cyfrifol yn cwrdd â Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.		Hydref 2015 Diwedd Awst 2015
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi yn nodiadau'r cleifion y cynigion ar roi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â chael eu cadw yn ogystal â'u hawliau, fel y nodir yn y Cod Ymarfer, paragraff 22.34.	Bydd cofnodi nifer y cynigion ar roi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â chael eu cadw yn ffurfio rhan o'r rhestr wirio/archwiliad. Bydd cofnodi yn nodiadau'r cleifion yn rhan o'r hyfforddiant ar waith papur ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer nyrsys cofrestredig. Bydd rheolwr yr uned yn ystyried rhoi marciwr yn nodiadau'r cleifion er mwyn	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Diwedd Gorffennaf 2015 Hydref 2015 Diwedd

		nodi'n eglur pan fydd hyn wedi'i gwblhau gyda chlaf, ac i ganiatáu croesgyfeirio â'r gwaith papur ffurfiol. Pan fydd hawliau claf yn cael eu darllen iddo, eir â'r wybodaeth i gyfarfod amlddisgyblaethol wythnosol y claf lle mae'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod. Bydd rheolwr yr uned yn cysylltu ag unedau iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn trafod y prosesau ar waith ar draws yr Is-adran.		Gorffennaf 2015 Yn parhau Diwedd mis Medi 2015
13	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn gwybod am ei hawl i apelio yn erbyn cael ei gadw.	Mae'r claf wedi cael ei hysbysu o'i hawl i apelio yn erbyn cael ei gadw. Roedd hyn wedi cael ei wneud pan oedd y claf yn aros mewn ysbyty arall ond nid oedd Gweinyddwr y Ddeddf Meddwl wedi anfon y gwaith papur ymlaen. Mae'r gwaith papur sy'n nodi'r wybodaeth hon bellach yn ffeil y claf.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd
14	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 sydd wedi dod i ben, yn cael ei marcio i fod yn annilys.	Bydd staff meddygol bellach yn sgorio'r ffurflen awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben a'i llofnodi.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd

		Bydd gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer y cynllun datblygu parhaus ar gyfer nyrsys, a bydd y meddygon yn cael eu cynnwys. Bydd ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 sydd wedi dod i ben yn ffurfio rhan o'r rhestr wirio/pecyn archwilio.		
14	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r amodau a nodir ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17, a'u diwygio lle bo hynny'n briodol.	Mae pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 wedi cael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen.	Dr Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd
14	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.	Bydd meddyg yn cyfeirio at y ffactorau tebygrwydd/posibilrwydd yn WARREN y claf, a phan fo hynny'n briodol yn atodi'r WARREN i'r ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17. Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod datblygu'r Uned Asesu a Thriniaeth ar 7 Gorffennaf 2015, a bydd y wybodaeth yn cael ei dosbarthu.		

		Bydd cwblhau'r tebygrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ar y ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 yn ffurfio rhan o'r rhestr wirio/pecyn archwilio.		
--	--	--	--	--